

Agenda – Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd	Alun Davidson
Dyddiad: Dydd Llun, 17 Medi 2018	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.45	0300 200 6565
	SeneddMADY@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod preifat

(13.45 – 14.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau (14.00)

2 Sesiwn graffu gyda Phrif Weinidog Cymru

(14.00–15.30)

(Tudalennau 1 – 26)

Y Gwir Anrh. Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru

Piers Bisson, Llywodraeth Cymru

3 Papurau i'w nodi

(15.30–15.40)

3.1 Papur i'w nodi 1 – Gohebiaeth gan y Llywydd ynghylch y fenter @Senedd – 19 Gorffennaf 2018

(Tudalen 27)

3.2 Papur i'w nodi 2 – Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru ynghylch goblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol Brexit – 23 Gorffennaf 2018

(Tudalennau 28 – 30)

3.3 Papur i'w nodi 3 – Gohebiaeth gan Syr William Cash, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Ewrop a'r Arglwydd Boswell, Cadeirydd Pwyllgor Dethol yr UE at Dominic Raab AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ynghylch craffu ar ddogfennau'r UE yn ystod cyfnod pontio neu gyfnod gweithredu ar ôl ymadael – 24 Gorffennaf 2018

(Tudalennau 31 – 32)



- 3.4 Papur i'w nodi 4 – Gohebiaeth gan David Lidington AS, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet i'r Arglwydd McFall o Alcluith ynghylch gweithgarwch rhynglywodraethol yn ymwneud â Brexit – 25 Gorffennaf 2018**
(Tudalennau 33 – 34)
- 3.5 Papur i'w nodi 5 – Gohebiaeth gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch y gwaith dilynol ar sesiwn graffu 2 Gorffennaf – 2 Awst 2018**
(Tudalennau 35 – 37)
- 3.6 Papur i'w nodi 6 – Gohebiaeth gan Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi ynghylch polisi masnach ar ôl Brexit a'r goblygiadau i Gymru – 3 Awst 2018**
(Tudalennau 38 – 39)
- 3.7 Papur i'w nodi 7 – Gohebiaeth gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ynghylch Cyfraith yr UE yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit? – 10 Awst 2018**
(Tudalennau 40 – 41)
- 3.8 Papur i'w nodi 8 – Gohebiaeth gan Robin Walker AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE ynghylch Cyfraith yr UE yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit? – 13 Awst 2018**
(Tudalennau 42 – 43)
- 3.9 Papur i'w nodi 9 – Gohebiaeth gan Julie James, Arweinydd y Tŷ at Mick Antoniw, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ynghylch y materion gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – 28 Awst 2018**
(Tudalennau 44 – 46)
- 3.10 Papur i'w nodi 10 – Gohebiaeth gan David Lidington AS, Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, ynghylch y trefniadau ar gyfer Fforwm y Gweinidogion ar Drafodaethau'r UE – 3 Medi 2018**
(Tudalennau 47 – 48)
- 3.11 Papur i'w nodi 11 – Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru, ynghylch y cais am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion yn yr**

adroddiad ar 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?' - 10 Medi 2018

(Tudalennau 49 - 54)

3.12 Papur i'w nodi 12 - Gohebiaeth oddi wrth Robin Walker AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar gyfer Ymadael â'r UE ynghylch y berthynas ag Ewrop yn y dyfodol - 11 Medi 2018

(Tudalennau 55 - 56)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.40)

5 Sesiwn graffu gyda Phrif Weinidog Cymru - trafod y dystiolaeth

(15.40-16.00)

6 Monitro trafodaethau'r UE

(16.00-16.15)

(Tudalennau 57 - 111)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Elin Jones AC, Llywydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AM, Presiding Officer

National Assembly for Wales

Eitem 3.1

Cadeiryddion y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/KD/LPR

18 Gorffennaf 2018

Annwyl Gadeirydd

Ysgrifennaf atoch ynghylch ein cynlluniau ar gyfer y ddwy fenter Senedd@... nesaf:

- Senedd@Aberystwyth - wythnos yn dechrau ar 3 Rhagfyr 2018;
- Senedd@Caerffili - wythnos yn dechrau ar 25 Mawrth 2019.

Rydym yn y broses o ddylunio ein rhaglen o ddigwyddiadau a gaiff ei hategu gan sesiynau allgymorth ac addysg gydag ysgolion, colegau, grwpiau ieuencid, grwpiau cymunedol, busnesau ac elusennau yn yr ardal.

Yn ystod mentrau blaenorol Senedd@, mae pwyllgorau wedi cynnal cyfarfodydd ffurfiol a sesiynau ymgysylltu anffurfiol mewn lleoliadau cymunedol i annog pobl i gymryd rhan yn eu gwaith. Mae Senedd@Aberystwyth a Senedd@Caerffili yn gyfle i godi proffil eich Pwyllgor, ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid a dinasyddion lleol. Felly buasem yn ddiolchgar pe baech yn ystyried a hoffai eich pwyllgor gymryd rhan yn un neu'r ddau Senedd@ a rhoi gwybod inni beth rydych yn bwriadu ei wneud drwy gysylltu â Kevin Davies (kevin.davies2@assembly.wales).

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

National Assembly for Wales

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403

Tudalen y pecyn 27



David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

23rd Gorffennaf 2018

Annwyl David

Goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 28 Mehefin. Gweler yr ymateb isod i'ch cais am eglurhad pellach ar bwyntiau a godwyd yn fy llythyr diwethaf.

Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE: sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Hawliau'r Siarter yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gefnogi ymdrechion yn y gorffennol i ddiwygio Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn Nhŷ'r Arglwyddi er mwyn sicrhau bod y Siarter yn cael ei hymgorffori'n llawn i gyfraith y DU ar ôl Brexit. Rydym felly'n siomedig iawn na fydd y Siarter yn rhan o gyfraith ddomestig ar ôl y diwrnod ymadael.

Mae'r ddogfen 'Charter of Fundamental Rights of the EU: Right by Right Analysis'¹ yn cyflwyno dadansoddiad Llywodraeth y DU o effaith y ffordd y mae hawliau sylfaenol yn cael eu trin yn y Bil i Ymadael â'r UE.

Gellir crynhoi safbwynt Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

- Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio ag ymgorffori'r Siarter i gyfraith ddomestig ar y sail nad yw'r Siarter yn creu unrhyw hawliau, rhyddid nac egwyddorion newydd, ond yn hytrach yn rhestru hawliau ac egwyddorion sydd eisoes yn cael eu hamddiffyn gan gyfraith yr UE.

¹ [Charter of Fundamental Rights of the EU Right by Right Analysis](#) 5.12.2017

- Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod y Siarter ond yn berthnasol i Aelod-wladwriaethau ar hyn o bryd wrth 'weithredu o fewn cwmpas cyfraith yr UE'.
- Mae Llywodraeth y DU yn dadlau na fydd dileu'r Siarter yn effeithio ar yr hawliau y mae unigolion eisoes yn elwa ohonynt gan nad y Siarter yw ffynhonnell yr hawliau hynny.

Mae'r ddogfen Right by Right Analysis yn awgrymu y bydd Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod hawliau'r Siarter yn parhau i gael eu hamddiffyn ar ôl ymadael â'r UE.

Dyma faterion sydd angen ystyriaeth ofalus. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i geisio sicrwydd am hawliau unigol dros y misoedd nesaf. Byddwn hefyd yn parhau i drafod y materion hyn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Peidio llithro yn ôl: sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau nad yw hawliau a rhwymedigaethau presennol (yn enwedig safonau cydraddoldeb a hawliau dynol mewn cymhwysedd datganoledig) yn cael eu herydu neu eu dileu o ganlyniad i Brexit.

Mae hawliau dynol yn rhan o DNA Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gofyniad presennol i weithredu'n unol â chyfraith yr UE, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru weithredu yn gydnaws â "hawliau'r Confensiwn", fel sy'n cael eu hadlewyrchu yn Neddf Hawliau Dynol 1998, ac yn yr un modd ni all y Cynulliad ddeddfu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r hawliau hynny. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn parhau i ddylanwadu ar ein holl waith wrth i ni ymadael, ac mae hynny'n gwbl gywir.

Cred Llywodraeth Cymru bod y systemau sy'n rhan o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn ffordd bwysig a phriodol i bobl Cymru herio anghydraddoldeb ac anghyfiawnder ac mae hawliau'r Confensiwn sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf honno, yn gwbl gywir, yn parhau i ddylanwadu ar ei pholisïau, deddfwriaeth a phenderfyniadau. O ganlyniad rydym wedi parhau i wrthwynebu'n sylfaenol unrhyw ymgais i dynnu yn ôl o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol neu ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998.

Pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn 'The Future Relationship between the United Kingdom and the European Union' ar 12 Gorffennaf 2018 felly, roeddem yn croesawu'r ffaith ei fod yn cadarnhau bod y DU wedi ymrwymo i fod yn aelod o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.²

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn cynnwys darpariaeth yn ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol y tu hwnt i hawliau'r Confensiwn, ac rydym yn parhau i ymrwymo i adlewyrchu egwyddorion ein rhwymedigaethau rhyngwladol yn ein polisïau, deddfwriaeth a phenderfyniadau.

Enghraifft o'r ymrwymiad hwn yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau dan y Ddeddf i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant ac Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Yn yr un modd, roedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rhoi mwy o effaith yng

² [The Future Relationship between the United Kingdom and the European Union](#) – 12.07.2018, Tudalen 52

Nghymru i hawliau a rhwymedigaethau sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn atgyfnerthu ein penderfyniad i gynnal a datblygu ein hymrwymiad at gydraddoldeb drwy osod dyletswydd gyfreithiol ar gyrrff cyhoeddus penodol i osod a chyhoeddi amcanion llesiant, sy'n cyfrannu cymaint â phosib i gyflawni nodau llesiant, gan gynnwys Cymru fwy cyfartal. Bydd y camau gweithredu hyn yn helpu i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael eu hamddiffyn yng Nghymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones', written in a cursive style.

CARWYN JONES



European Scrutiny Committee
House of Commons
London
SW1A 0AA

Tel 020 7219 5465/3292
Email escom@parliament.uk



European Union Committee
House of Lords
London
SW1A 0PW

Tel 020 7219 6083
Email euclords@parliament.uk

Rt Hon Dominic Raab MP
Secretary of State for Exiting the European Union
9 Downing Street
London, SW1A 2AS

24 July 2018

Dear Dominic

Scrutiny of EU documents during a post-exit transition or implementation period

As Chairs of the Committees responsible for scrutiny of EU documents in the House of Commons and House of Lords, we are writing to express our resolve to maintain a strong and effective scrutiny system during any post-exit transition or implementation period agreed as part of the withdrawal negotiations.

Since the referendum, both our Committees have continued to fulfil their obligations to scrutinise EU documents. The Government, in turn, has made a commitment to continue to fulfil its obligation fully to support parliamentary scrutiny for as long as the UK remains a Member State. We would be grateful for your confirmation that this commitment remains in force.

Under the draft EU/UK Withdrawal Agreement, most EU laws which take effect during a post-exit transition/implementation period will apply to the UK as if it were a Member State until the end of December 2020. We welcome the commitment made by the Government in its response to the House of Commons European Scrutiny Committee's March 2018 report on *EU Withdrawal: Transitional provisions and dispute resolution* to "continue to support and facilitate" a strong scrutiny process "for as long as EU legislation will continue to affect the UK".

To achieve this, we ask you to confirm that the Government will:

- continue to provide extensive access to information and documentation, as at present, and draw up guidance for Departments accordingly; and
- produce Explanatory Memoranda (EM), on a similar timescale to now, on all new EU documents published during the transition or implementation period that affect the UK.

We recognise that the current EM template may need to be modified and are open to discussing any necessary changes with your officials. We would also be willing to consider proposals for reviewing the categories of EU document that should be deposited.

The scrutiny committees will also wish to scrutinise the implementation of the Withdrawal Agreement and the Government's input into the institutional structures established under it, including the Joint Committee and specialised committees. The Joint Committee provides a forum in which to raise concerns about the management and operation of the Withdrawal Agreement during the transition/implementation period. The possibility to raise concerns about the impact on the UK of specific new EU laws being negotiated or proposed during the transition/implementation period creates a direct link with the document scrutiny work of the European Scrutiny Committee in the Commons and the European Union Committee in the Lords. We therefore envisage establishing a new mechanism to enable either House (acting on a recommendation from the relevant scrutiny committee) to require the Government, in good time, to:

- raise concerns about specific EU legislative proposals which may have a detrimental impact on the UK; and
- place a particular issue on the agenda of the Joint Committee (or a specialised committee) for discussion.

To facilitate effective scrutiny, we also expect the Government to:

- ensure that meeting schedules and agendas are made available in sufficient time for Parliament to consider (and comment on) the items to be discussed;
- formally deposit draft decisions, recommendations or proposed changes by the Joint Committee to the Withdrawal Agreement; and
- undertake that a Minister will appear in person before the Scrutiny Committees in advance of Joint Committee meetings and report on the outcome afterwards.


We would be grateful for your confirmation that the Government is willing to support this approach in outline, subject to further discussion at official level.

We will consider these issues further when Parliament returns in September. In order to inform our deliberations, we would be grateful for a response to this letter by 3 September 2018. We would also be very happy to speak to you, or your officials, to discuss these issues in more detail.



Sir William Cash MP
Chair, European Scrutiny Committee

Yours sincerely,



Boswell of Aynho
Chair, European Union Committee



Our Ref: CDL/1970

Rt Hon Lord McFall of Alcluith
Senior Deputy Speaker
House of Lords
London
SW1A 0PW

25 July 2018

Dear Lord McFall

Following your request earlier this year that the Interparliamentary Forum on Brexit be kept informed of intergovernmental activity, I am pleased to provide here an update on engagement and meetings that have taken place since our last exchange on 26 March.

Joint Ministerial Committee (EU Negotiations)

Since March I have chaired three further constructive meetings of the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) (JMC(EN)) on 2 May, 22 June and 5 July.

At the most recent meeting on 5 July, Robin Walker provided an update on negotiations, a full overview of June European Council and an update on further progress on the Future Relationship White Paper. The Committee also discussed the UK Government's proposals for the forthcoming Withdrawal Agreement and Implementation Bill. It is my intention to reconvene JMC(EN) in September following summer recess and that the Committee continue to meet regularly as we draw closer to exit day.

At the meeting on 22 June, we provided the First Minister of Wales, Carwyn Jones, and the now Cabinet Secretary for Government Business and Constitutional Relations, Mike Russell, with an update on the priorities for the June European Council. Robin Walker provided an update on progress on the Future Relationship White Paper, and led a discussion on increased engagement around operational readiness.

Discussion at the meeting on 2 May included an update on negotiations and March European Council and the agreement reached on the terms of the Implementation Period. The Committee discussed the UK Government's paper on the Devolved Administrations' role in the Negotiations as well as the EU (Withdrawal) Bill. The Committee also noted the need for continued engagement on common frameworks.

Ministerial Forum (EU Negotiations)

At the meeting of the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) (JMC(EN)) on 2 May 2018 the UK Government proposed additional engagement with the devolved administrations in the

next phase of negotiations, including the creation of a new Ministerial Forum on EU Negotiations (MF(EN)), chaired by the Minister for the Constitution Chloe Smith and Parliamentary Under Secretary of State for Exiting the EU Robin Walker.

The MF(EN) builds on the UK Government's commitment to engaging with the devolved administrations as we leave the EU, by ensuring they have the opportunity to contribute to the development of the UK negotiating line in advance of negotiations with the EU in areas which intersect with the devolution settlements or have a significant impact on the devolved nations. The MF(EN) will meet regularly over the summer and beyond to cover issues relating to the future partnership.

In parallel, technical sessions at official level are taking place to discuss negotiation topics relating to the future partnership with the EU. These technical sessions provide an opportunity for UKG and the DAs to discuss a range of negotiation options on specific issues. These discussions will highlight policy areas and issues to be covered at future MF(EN)s.


The first MF(EN) met in Edinburgh on 24 May 2018 and was a constructive meeting. This Ministerial Forum focused on the Future Relationship White Paper, as well as how the Ministerial Forum would work in practice. Complementing existing Inter-Governmental Relations architecture, MF(EN) will use the JMC(EN)'s terms of reference and will provide an important space to share our respective views. Where differences exist, political discussions will be fed up to JMC(EN). We held the second meeting of this new Ministerial Forum on 27 June in Westminster, again focusing on the publication of the White Paper. The forum will next meet in Cardiff on 1 August.

British-Irish Council

The 30th Summit of the British-Irish Council (BIC) was held on 22 June, hosted by the Government of Guernsey. The main discussion items at the Summit meeting focussed on marine environment issues and latest political developments, including EU Exit and the political situation in Northern Ireland. The next BIC Summit will be held on 9 November 2018, hosted by the Government of the Isle of Man.

In addition to engaging through these formal structures, I continue to speak regularly with my counterparts in the devolved administrations to take stock of progress of ongoing joint working in areas of shared interest.

I do hope this information is of interest to the Forum and will prove useful in facilitating discussion at future meetings.

A handwritten signature in black ink, reading "David Lidington". The signature is fluid and cursive, with a large loop at the end of the name.

Rt Hon David Lidington CBE MP

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/2753/18

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

2 Awst 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf yn gofyn am wybodaeth bellach yn dilyn y sesiwn graffu ar 2 Gorffennaf.

Cronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd

Fel y gwelwyd yn 'Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2018-19: Cyllideb Newydd i Gymru' ym mis Rhagfyr 2017 ac fel y cyhoeddwyd yn gynharach eleni gan y Prif Weinidog, cafodd y gronfa hon sy'n werth £50 miliwn ei sefydlu i helpu busnesau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau partner eraill yng Nghymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer effeithiau Brexit.

Rydym yn darparu £50m cychwynnol ar gyfer y Gronfa, a bydd yr arian hwn ar gael yn ystod y cyfnod pontio. Bydd yn gymysgedd o gyllid refeniw, cyfalaf a benthyciadau (a fydd yn cael ei ariannu drwy gyfalaf trafodiadau ariannol) a bydd yn dod o nifer o ffrydiau cyllido. Bydd y proffil cyllido ar gyfer y £50m yn cael ei gadarnhau pan gytunir ar y mesurau penodol. Bydd unrhyw ddarpariaeth gyfalaf a benthyciadau yn defnyddio rhywfaint o'r adnoddau a gawsom yng Nghyllideb yr Hydref y DU yn 2017. Bydd Cronfa Wrth Gefn newydd Cymru hefyd yn darparu mwy o hyblygrwydd yn ôl yr angen. Byddwn yn parhau i adolygu'r angen am gyllid ychwanegol.

Un o'r prosiectau cyntaf i elwa ar y cyllid oedd y gwaith o ddatblygu'r sector cig coch yng Nghymru a gafodd £2.15 miliwn. Bydd yn cefnogi ffermwyr i nodi gwelliannau i'w busnesau, yn eu helpu i ddod yn fwy cystadleuol a'u rhoi mewn sefyllfa well i fasnachu'n broffidiol ar ôl Brexit. Bydd £100k hefyd yn cael ei roi i brosiect cynhyrchu yn lle mewnforio i helpu i nodi a diogelu cadwyni cyflenwi yn y DU ac annog cwmnïau sydd wedi'u lleoli yn yr UE i ddechrau gweithredu o Gymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dros y ddwy flynedd nesaf hefyd, bydd y diwydiant pysgota a dyframaethu yn cael cymorth ariannol i'w helpu i ganfod marchnadoedd newydd a pharatoi i fasnachu yn y dyfodol y tu allan i'r UE. Mae £390k ar gael i drawsnewid Systemau Rheoli Pysgodfeydd y Llywodraeth a £440k i gefnogi sectorau dyframaethu a physgodfeydd Cymru wrth iddynt baratoi i'r DU ymadael â'r UE.

Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi £3.5m ar gyfer rhaglen sy'n cael ei chynnal gan brifysgolion Cymru i ysgogi partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel man astudio ar ôl Brexit. Rydym hefyd yn hwyluso Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu pecyn cymorth Brexit i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (£150k) ac i gynnal ymchwil i gasglu data ar weithlu gofal cymdeithasol a'r ddibyniaeth ar wladolion yr UE (£200k). Rwy'n rhagweld y bydd cyhoeddiadau pellach ar gyfer dyraniadau o Gronfa Bontio yr UE yn cael eu gwneud fis Medi. Bydd hyn yn parhau i gynyddu gwariant y Gronfa.

Bydd y prosiectau uchod yn helpu i ddiogelu ein heconomi ar gyfer y dyfodol. Bwriad y Gronfa yw helpu busnesau ac eraill, ond er y bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi hwb i'n cadernid, nid yw'n gallu ein hynysu rhag effeithiau 'dim cytundeb' na Brexit caled. Fodd bynnag, rydym yn parhau i groesawu syniadau ar gyfer mentrau ac ymyraethau a fydd o werth strategol i Gymru dros y misoedd nesaf.

Paratoadau Brexit: cyllid canlyniadol

Mae Brexit yn rhoi pwysau ar adnoddau ar draws Llywodraeth Cymru wrth i'r gwaith ddwysáu er mwyn paratoi ar gyfer goblygiadau gweithredol ymadael, negodi safbwyntiau i ddylanwadu ar bartneriaeth y DU â'r UE yn y dyfodol, a datblygu fframweithiau cyffredin ar ôl ymadael â'r UE.

Ochr yn ochr â Datganiad y Gwanwyn gan Lywodraeth y DU, cadarnhawyd mai ein 'cyfran' ni o'r £3bn dros y ddwy flynedd a gyhoeddwyd ganddi ar gyfer paratoi ar gyfer Brexit fydd £20.7m yn 2018-19. Bydd y swm canlyniadol hwn ar gael i gefnogi costau staffio yn ymwneud â Brexit yn ogystal â'r gronfa allanol.

Yn dilyn dadansoddiad ar draws Llywodraeth Cymru o ofynion y gweithlu, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth derfynol y gyllideb, rydym yn lansio ymgyrch recriwtio i ddarparu adnoddau i fynd i'r afael â'r pwysau a nodwyd. Er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn ymateb yn gyflym i bwysau Brexit, gan barhau i ganolbwyntio ar fforddiadwyedd yn y tymor hwy, bydd yr adnoddau hyn yn gymysgedd o drefniadau parhaol a chyfnod penodol.

Byddaf yn gwneud datganiad i'r Cynulliad ar faterion adnoddau Brexit wrth i'r cynlluniau hyn gael eu cwblhau yn y dyfodol agos.

Cyd-bwyllgor yr UE a'r DU

Rwy'n cytuno'n llwyr â chi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill gael rhan weithredol yn nhrefniadau'r Cyd-bwyllgor i oruchwylio'r Cytundeb Ymadael. Mae'r un rhesymeg yn berthnasol i drefniadau unrhyw Gyd-bwyllgor a fydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio Partneriaeth Economaidd y Dyfodol neu drefniadau penodol eraill rhwng yr UE a'r DU sy'n berthnasol iddo. Gallwch fod yn siŵr y byddwn yn cyfleu'n glir iawn i Lywodraeth y DU bod cymryd camau o'r fath yn gwbl hanfodol er mwyn i unrhyw drefniadau yn y dyfodol fod yn gwbl weithredol mewn perthynas â materion datganoledig, neu â materion heb eu datganoli sy'n effeithio ar faterion datganoledig, gan felly gynnwys ystod eang iawn o faterion. Byddwn yn parhau i bwysleisio'r pwyntiau hyn ar y lefelau priodol â Llywodraeth y DU dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf wrth i'r negodiadau ddatblygu.

Cyfrifoldebau'r Cabinet dros Brexit

Mae safbwynt Cabinet Llywodraeth Cymru wedi'i amlinellu yn 'Diogelu Dyfodol Cymru' a sefydlwyd Is-bwyllgor Cabinet i gynnal busnes Pontio Ewropeaidd. Y Prif Weinidog sy'n ein cynrychioli yn gyhoeddus, ac yn arbennig i Brif Weinidog y DU ac yn uniongyrchol â phrif negodwr yr UE, Michel Barnier. Rwy'n cynrychioli cydweithwyr y Cabinet yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) ac mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn arwain y Fforwm Gweinidogol sy'n cynnwys Ysgrifenyddion a Gweinidogion eraill y Cabinet i ystyried safbwyntiau negodi yn seiliedig ar rolau a chyfrifoldebau'r portffolio.

Mae materion sy'n ymwneud â Brexit yn cael eu prif ffrydio drwy'r Grŵp Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

Mae Gweinidogion a swyddogion yn rhan o'r fforymau rhynglywodraethol canlynol:

- Cydbwyllgor y Gweinidogion ar Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd
- Fforwm Gweinidogol ar Negodiadau'r UE
- Gweithgorau technegol Swyddogion ar sefyllfaoedd negodi'r DU, sy'n bwydo i'r Fforwm Gweinidogol ar Negodiadau'r UE
- Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop
- Trafodaethau ymysg Swyddogion ar Fframweithiau cyffredin y DU
- Cyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion ar DEFRA
- Cyfarfod Pedairochrog y Gweinidogion Cyllid
- Fforwm Swyddogion BEIS –DA
- Fforwm Llywodraeth y DU/y Gweinyddiaethau Datganoledig ar Barodrwydd Gweithredol (Swyddogion)
- Grŵp Rheoli Canolog Datganoli ac Is-ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE (Swyddogion)

Rwy'n edrych ymlaen at drafod y rhain ymhellach â'r Pwyllgor.

Dymuniadau gorau



Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol
a Deddfwriaeth Ychwanegol

03 Awst 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf ynghylch ymwneud Llywodraeth y DU â'r gweinyddiaethau datganoledig o safbwynt datblygu polisi masnach ar ôl Brexit ac yn benodol, ymwneud Llywodraeth Cymru â'r flaenraglen waith a ddatblygwyd gan yr Adran Masnach Ryngwladol (DIT).

Fel y gwyddoch, cododd Steffan Lewis AC bwynt tebyg â mi yn ystod sesiwn Cwestiynau Llafar y Cynulliad ar 04 Gorffennaf 2018 a chynigiais ysgrifennu at yr holl Aelodau Cynulliad er mwyn cadarnhau pa gyswllt sydd wedi digwydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Hoffwn eich cyfeirio at fy ymateb a ddylai gynnwys yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani; amgaeir copi yn Atodiad A.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ailddatgan y ffaith bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn gwbl allweddol fod Llywodraeth y DU yn ymwneud mewn modd cynhwysfawr ac effeithiol â'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch datblygu polisi masnach, ynghylch mandadau ar gyfer trafodaethau masnach penodol ac ynghylch y trafodaethau eu hunain er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r DU yn elwa ar gysylltiadau masnach y DU yn y dyfodol.

Nid yw'r Adran Masnach Ryngwladol, hyd yma, wedi gwahodd Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn unrhyw un o'r Gweithgorau Masnach y mae wedi'u sefydlu, wedi ymgynghori â ni ynghylch eu gwaith (er eu bod yn ymwneud â meysydd sydd wedi'u datganoli) nac wedi adrodd ar fanylion y cyfarfodydd hyn. Cyhoeddodd yr Adran Masnach Ryngwladol nifer o ymgynghoriadau cyhoeddus ar 20 Gorffennaf a fydd yn sail i'w pharatoadau ar gyfer trafodaethau masnach posibl ag Awstralia, Seland Newydd a'r UDE a hefyd ddod yn aelod posibl o CPTPP unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE. Ni chafodd holiaduron yr ymgynghoriadau na'r pecynnau gwybodaeth cysylltiedig a oedd yn nodi'r dystiolaeth a oedd yn sail i'r ymgynghoriadau eu rhannu â Llywodraeth Cymru cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Hoffwn eich sicrhau y byddaf yn parhau i bwysleisio i Weinidogion yr Adran Masnach Ryngwladol bwysigrwydd ymwneud â Llywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eraill ynghylch polisi masnach y DU er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder o safbwynt sut y caiff cytundebau masnach yn y dyfodol eu ffurfio. Byddaf i a'm cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru yn gwbl barod i dynnu sylw at y materion hyn drwy drafodaethau rhynglywodraethol ar y lefel uchaf os bydd y lefel annerbyniol bresennol o ddiffyg cyswllt â'r Adran Masnach Ryngwladol yn parhau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', with a long, sweeping horizontal stroke above the letters.

Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport

Eitem 3.7

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

10 Awst 2018

Annwyl Daivd,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, "Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?". Cyfeiriaf yn arbennig at yr egwyddorion yr ydych wedi'u datblygu ynghylch, yn gyntaf, y mecanwaith cyfreithiol ar gyfer cynnal cyfraith yr UE ac, yn ail, y cysylltiadau rhynglywodraethol â'r UE, yn ystod y cyfnod pontio.

O ran yr egwyddor gyntaf, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), er y diddymir Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, bwriedir i gyfraith yr UE barhau'n gymwys i'r DU yn ystod y cyfnod pontio. Cyflawnir hyn drwy arbed effaith Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn ystod y cyfnod pontio ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Er hynny, bydd rhaid bod yn ddethol wrth arbed effaith Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972, er mwyn adlewyrchu'r ffaith na fydd y DU yn Aelod-wladwriaeth o'r UE yn ystod y cyfnod pontio.

Mae fy swyddogion i'n trafod manylion y ddarpariaeth hon â swyddogion yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, rydym yn dal i ddisgwyl y bydd cryn dipyn o debygrwydd rhwng y modd y cymhwysir cyfraith yr UE yn y DU yn awr ac yn ystod y cyfnod pontio ac y byddai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru rôl i'w chwarae yn hyn. Mae amryw o opsiynau ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gweithredu cyfraith yr UE yng Nghymru, drwy gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol, ac rydym yn disgwyl y bydd yr holl fecanweithiau presennol ar gyfer cymhwyso cyfraith yr UE at ddibenion y Cytundeb Ymadael yn dal i fod ar gael yn ystod y cyfnod pontio.

Ni fydd hyn yn effeithio ar drafodaethau ar wahân ynghylch yr angen am fframweithiau cyffredin, i'w gweithredu o dan y gweithdrefnau a amlinellir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac a fyddai'n amodol ar gytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, ac ar ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE. Rydym yn rhagweld mai dim ond ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben y byddai'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r fframweithiau hyn yn gymwys.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 40

O ran yr ail egwyddor a ddatblygwyd gennych, ac fel y dywedais wrthych yn fy llythyr atoch ym mis Mehefin, mae'n sicr yn uchelgais gennym na ddylai ein cyfranogiad priodol yng nghynrychiolaeth y DU yn yr UE leihau yn ystod y cyfnod pontio. Nid yw union natur y cyfranogiad hwnnw wedi'i phennu hyd yma. Fodd bynnag, rydym wedi codi mater ein cyfranogiad yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion gyda Llywodraeth y DU, a byddwn yn parhau i ddadlau dros hynny a thros gael cymryd rhan briodol mewn unrhyw feysydd eraill o ryngweithio â'r UE, er enghraifft y negodiadau ar ddyfodol y bartneriaeth economaidd.

Fel y dywedais ym mis Mehefin, mae hyn yn tynnu ar y dull a amlinellwyd yn y Concordat ar Gydgysylltu Materion Polisi'r Undeb Ewropeaidd, yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli, ynghylch presenoldeb Gweinidogion yn y Cyngor a chyfarfodydd rhwng Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig, fel y'i cryfhawyd yn 2013 drwy welliant y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Rwy'n ddiolchgar am gael copi o'ch llythyrau at Gadeiryddion Pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ac am eich gwaith parhaus chi a'ch Pwyllgor i sicrhau bod goblygiadau ymadawiad y DU â'r UE yn cael eu hystyried yn briodol a bod paratoadau'n cael eu gwneud i ddiogelu buddiannau Cymru, a'r setliad datganoli.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark". The letters are cursive and slightly slanted to the right.

Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance



David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

13 August 2018

Dear David,

EXTERNAL AFFAIRS AND ADDITIONAL LEGISLATION COMMITTEE - INQUIRY INTO EUROPEAN LAW IN WALES DURING THE IMPLEMENTATION PERIOD

Many thanks for your letter of 20 July, and for setting out so clearly the thinking of the External Affairs and Additional Legislation Committee of the Welsh Assembly.

As you know from my previous appearances in front of your committee, I am keen to engage with the Welsh Government and the National Assembly as we continue preparations for exiting the EU, and progress the programme of exit legislation.

Legal Mechanism

We set out the UK Government's early expectations for the European Union (Withdrawal Agreement) Bill in the White Paper on *Legislating for the Withdrawal Agreement between the UK and the EU* on 24 July. This Bill will give legislative effect to the Withdrawal Agreement, and will only be introduced once the negotiations have concluded and Parliament has approved the final deal we agree with the EU.

Chapter 3 of the White Paper sets out the Government's plans for legislating for the implementation period. The EU (Withdrawal) Act will repeal the European Communities Act 1972 (ECA) with effect from 29 March 2019. However, we will need to ensure that EU law continues to apply in the UK for the duration of the time-limited implementation period. This will be achieved by way of transitional provision, in which the EU (Withdrawal Agreement) Bill will amend the EU (Withdrawal) Act so that those elements of the ECA necessary for the operation of the implementation period are preserved. This approach will provide legal certainty to businesses and individuals, and will ensure there is continuity in the effect that

EU law has in the UK during the implementation period. The Bill will make provision so that, on 31 December 2020, the saved effect of the ECA will cease to apply.

With regard to the transposition, implementation and enforcement of EU law in Wales during the implementation period, your expectation of a 'high degree of similarity' with current processes is correct. The Welsh Government and the National Assembly for Wales will have powers of transposition and implementation, in relation to Wales, over non-reserved policy areas requiring domestic implementation. Responsibility for implementing EU law in reserved policy areas (and in any non-reserved areas agreed with the Welsh Government) will continue to sit with the UK Government and Parliament in Westminster for the duration of the IP.

The Assembly's scrutiny role

The UK Government has noted with interest the External Affairs and Additional Legislation Committee's considerations regarding the Welsh Assembly's scrutiny role during the implementation period.

The scrutiny arrangements during the implementation period will need to be informed by the detailed arrangements for the period agreed between the UK and the EU, and the exact nature of involvement in the EU institutions, agencies and bodies during the implementation period.

I do however wish to take this opportunity to assure you that the UK Government supports a strong ongoing parliamentary scrutiny process, and will continue to support this process for as long as EU legislation will continue to affect the UK. We will be engaging in further dialogue with the UK Parliament's committees as to how scrutiny during the implementation may best be achieved.

Intergovernmental relations relating to the EU during transition

At present, the devolved administrations work closely with UK Government departments in developing the final UK Government position on draft EU laws which impact on devolved areas. We anticipate maintaining this system during the implementation period. The Intergovernmental Relations review commissioned by the Plenary of the Joint Ministerial Committee in March 2018 may further refine this process.



ROBIN WALKER MP
PARLIAMENTARY UNDER SECRETARY OF STATE FOR
EXITING THE EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Awst 2018

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch adroddiad diweddar eich Pwyllgor sy'n ymdrin â materion gweithredol sy'n ymwneud â chraffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018"), ac yn benodol argymhelliad 2, sy'n dweud:

Rydym yn argymhell y dylai Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ofynnol i ni, sef y pwyllgor sydd â'r swyddogaeth o sifftio rheoliadau o dan Ddeddf 2018, gyhoeddi'r meini prawf y byddwn yn eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio.

Cafodd y meini prawf, a ddylai gael eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio, eu nodi a'u hargymhell gennych gyntaf yn eich adroddiad fis Chwefror 2018, ac rydych wedi ailadrodd y meini prawf hyn wedyn ar dudalen 20 yn eich adroddiad diweddaraf, a hynny mewn perthynas â'r argymhelliad uchod.

Ers i'ch Pwyllgor ddatblygu ei gynigion gyntaf ar gyfer y meini prawf sifftio, mae Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau yn argymhell meini prawf a ddylai gael eu cymhwyso gan bwyllgor sifftio pob Tŷ.

Nododd Pwyllgor Gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, yn ei adroddiad¹ a gyhoeddwyd ar 9 Gorffennaf:

"...a number of factors which the new committee may want to consider when deciding whether the instrument ought to be subject to the affirmative procedure. The main ones are:

¹ (<https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmproced/201719-1395/1395/18102.pdf>):

- *Legal importance: does the instrument amend existing law or make new law in a way which is significant? Would it normally fall within the “Brooke criteria”, which since the 1970s have been a general guide as to whether an instrument ought to engage the affirmative procedure?*
- *Political importance: is the Government proposing a legislative change which involves a substantive change in policy?*
- *Overall significance: is a proposed legislative change, taken together with other proposals, significant enough to merit the affirmative procedure?”*

Yn ei adroddiad² yntau wedyn, a gyhoeddwyd ar 20 Gorffennaf, daeth Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi i'r casgliad canlynol:

“...we propose, at this stage, to adopt a case by case approach:

- *We shall consider each proposed negative instrument on its merits, taking into account the Minister’s reasons for his or her opinion that the negative procedure should apply.*
- *We shall apply the overarching test: “is the subject matter of this instrument and the scope of any policy change effected by it of such significance that the House would expect to debate it?”*
- *In assessing whether the test is met, the Committee will take into account certain features of an instrument (such as those listed in paragraph 5 [of the report] above), although we stress that this is not a definitive list.*
- *The Committee will also apply a presumption of the affirmative procedure where a proposed negative instrument contains significant amendments to primary legislation or retained direct principal EU legislation, rebuttable by a full and convincing explanation for the negative procedure.”*

Rwy'n nodi bod y ddau bwyllgor Seneddol hyn yn cynnig canolbwyntio ar sylwedd mater y testun o fewn pob Offeryn Statudol, yn enwedig o ran i ba raddau y gallai olygu newidiadau mwy cynhwysfawr i bolisi presennol y llywodraeth, ond bod y meini prawf a gynigir gan eich Pwyllgor chi yn canolbwyntio ar eglurder a thryloywder y memoranda esboniadol sy'n cydfynd â'r offerynnau.

Er ei bod yn hanfodol sicrhau eglurder o ran yr hyn a gynigir er mwyn i'r Pwyllgor allu gwneud ei waith sifftio, rwy'n cytuno â'r dadleuon a gyflwynwyd gan Bwyllgorau'r Cynulliad, yng nghyd-destun Brexit, y dylai gwahanol ddeddfwrfeydd y Deyrnas Unedig weithredu mewn cytgord ar y materion hyn.

Byddwn felly'n awgrymu y gallai eich Pwyllgor ystyried edrych eto ar y meini prawf y mae'n eu cynnig yng ngoleuni adroddiadau pwyllgorau seneddol y DU, ac yn wir unrhyw gynigion perthnasol a wneir gan Senedd yr Alban.

Hoffwn hefyd roi ymateb cychwynnol i'r dull gweithredu a gynigir mewn perthynas â Rheolau Sefydlog.

Yn eich adroddiad fis Chwefror, roeddech yn argymhell y dylid nodi'r meini prawf sifftio yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, yn eich adroddiad fis Gorffennaf, fel y nodir uchod, rydych yn awgrymu na ddylai'r Rheolau Sefydlog ond yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor perthnasol gyhoeddi'r meini prawf sifftio a fydd yn cael eu cymhwyso i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r broses sifftio. Wrth gyflwyno'r newid hwn, mae'r adroddiad yn cyfeirio at ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a gafodd ei gyhoeddi gennych ym mis Chwefror, a oedd yn dweud nad oedd y llywodraeth wedi ei darbwylo y dylid cynnwys y meini prawf mewn Rheolau Sefydlog. Y rheswm am hynny

² (<https://publications.parliament.uk/pa/ld2017/ldselect/lddeffw/1719-174/174/18102.pdf>):

oedd bod y llywodraeth o'r farn y byddai angen i'r meini prawf fod yn gyson â'r fframwaith terfynol ar gyfer y mecanwaith sifftio, nad oedd yn hysbys ar y pryd. Bellach mae eglurder ynghylch yr hyn y mae Deddf 2018 yn darparu ar ei gyfer, gan gynnwys rhai rheoliadau unioni y mae'n rhaid eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol a'r broses sifftio ar gyfer y rheoliadau hynny y cynigir eu bod yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn negyddol.

Felly, mae'r llywodraeth bellach o'r farn bod yr argymhelliad yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan eich Pwyllgor ym mis Chwefror yn gwneud synnwyr, ac y dylid nodi'r meini prawf, sydd i'w cymhwyso gan y pwyllgor sifftio, yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Byddai hyn yn gyson â Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, sy'n gosod y seiliau y gallai'r pwyllgor sydd â'r cyfrifoldeb eu defnyddio i adrodd arnynt wrth iddo ystyried pob offeryn statudol ac offeryn statudol drafft sy'n cael ei osod gerbron y Cynulliad.

Wrth gwrs, bydd y Pwyllgor Busnes a'r Cynulliad ei hun yn dychwelyd at y mater hwn pan fydd y Cynulliad yn ailymgynnull ym mis Medi, a bydd yn ystyried y newidiadau arfaethedig i'w Reolau Sefydlog i sefydlu gweithdrefnau ar gyfer craffu ar reoliadau a wneir o dan Ddeddf 2018.

Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith ar y mater hwn. Bydd y llywodraeth yn darparu ymateb ffurfiol i'r argymhellion a wneir yn adroddiad eich pwyllgor maes o law.

Yn gywir,



Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip



Cabinet Office

Eitem 3.10
Rt Hon David Lidington MP
Chancellor of the Duchy of Lancaster
Minister for the Cabinet Office
70 Whitehall
London
SW1A 2AS

Web www.cabinetoffice.gov.uk

Our Ref: CDL/2036

David Rees AM
Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

3 September 2018

Thank you for your letter dated 19 July regarding the Ministerial Forum (EU Negotiations). I understand you discussed this with the Minister for Housing and Regeneration at the External Affairs and Additional Legislation Committee on 2 July 2018.

Building on discussions at the Joint Ministerial Committee on EU Negotiations (JMC (EN)), the Ministerial Forum on EU Negotiations (MF(EN)) has been established to ensure the devolved administrations have increased opportunity to contribute to the development of the UK negotiating position in greater breadth and depth. Officials from the UK Government, Welsh Government, Scottish Government and Northern Ireland Civil Service make up the joint secretariat for the Ministerial Forum. As the Minister for Housing and Regeneration mentioned at the External Affairs and Additional Legislation Committee on 2 July our officials work together to jointly agree the logistics, operations, papers and agenda items for the Ministerial Forum.

The third Ministerial Forum (EU Negotiations) was hosted by the Welsh Government in Cardiff on 1 August 2018. There was a constructive discussion on the role of the Ministerial Forum in supporting negotiations on the future relationship with the EU. There was also a useful discussion on Open and Fair Competition, on which there was a good deal of common ground, including with regard to the UK Government's vision for an economic partnership that includes a common rulebook for goods including agri-food.


As Chair of JMC(EN) I have had productive conversations with Ministers from the devolved administrations and I look forward to moving to a more frequent cycle of engagement from September. The Ministerial Forum will continue to meet regularly and the timing of meetings will need to be flexible to the emerging structure and sequencing of negotiations.

With regard to the sharing of negotiation texts and communications, which I appreciate is a concern of the Welsh Government, we will always endeavour to provide the DAs with early sight and the opportunity to provide meaningful comment. We were pleased to have been able to share specific sections of the Future Relationship White Paper with the DAs in advance of publication. We were grateful for the comments received on these sections, as well as the wider contributions on the broader content of the Future Relationship White Paper. Ministers were also able to discuss the proposals for the Withdrawal Agreement Bill at JMC (EN) on 5 July, significantly in advance of publication, due to earlier information we were able to share.

I am copying this letter to the Minister for Housing and Regeneration and the Cabinet Secretary for Finance in the Welsh Government.

A handwritten signature in black ink, consisting of a series of loops and curves, positioned above the typed name.

Rt Hon David Lidington CBE MP

A large, stylized handwritten signature in black ink, featuring a prominent loop and a long horizontal stroke, positioned to the right of the typed name.

David Rees, AM
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddMADY@cynulliad.cymru

10 Medi 2018

Annwyl David

Cais am wybodaeth ynghylch y cynnydd gyda'r argymhellion yn yr adroddiad 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?'

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf, yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r argymhellion yn yr adroddiad "Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?". Fe wnaethoch ofyn yn arbennig am unrhyw gamau penodol a gymerwyd i gyflawni argymhellion y Pwyllgor, am syniad o'r adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol i baratoi ar gyfer Brexit ac am awgrym o'r amserlen ar gyfer cwblhau unrhyw waith paratoi sy'n mynd rhagddo. Diolch am gytuno i roi estyniad byr, sydd wedi caniatáu i mi gynnwys y datblygiadau diweddaraf yn fy ymateb.

Rydych yn gywir i ddweud yn eich llythyr bod diffyg sicrwydd o hyd am ganlyniad tebygol y negodiadau. Yn amlwg, mae hyn yn arwain at ddyfalu cynyddol y gallai'r DU ymadael heb sicrhau cytundeb. Yn fy mam i, byddai canlyniad o'r fath yn fethiant gwleidyddol trychinebus ar ran Lywodraeth y DU, a fyddai'n fgygythiad sylweddol i ffyniant a llesiant pobl Cymru ac, yn wir, y DU yn gyfan.

Rwyf wedi pwysleisio hyn dro ar ôl tro wrth Lywodraeth y DU, ac fe fyddaf yn parhau i wneud hynny wrth i ni agosáu at gyfarfodydd tyngedfennol y Cyngor Ewropeaidd yn yr hydref. Er gwaethaf fy argyhoeddiad fy hun bod yn rhaid dod i gytundeb, rwy'n cydnabod bod cyfrifoldeb arnom i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb, yn yr un modd ag y byddem yn paratoi ar gyfer unrhyw drychineb sydd y tu hwnt i'n rheolaeth i'w atal. Ond ni fedraf esgus wrth Lywodraeth y DU na'r cyhoedd bod canlyniad o'r fath ond yn un mewn cyfres o opsiynau ymarferol sydd o'n blaen; ddylai neb fod yn ystyried cyrraedd sefyllfa o fod heb gytundeb, yn fwriadol neu beidio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Does dim modd i Gymru baratoi i ymadael â'r UE wrth ei hun; sydd eto yn bwynt rwyf wedi'i bwysleisio yn rheolaidd ac yn gadarn wrth Lywodraeth y DU. Mae'n hanfodol bwysig i bob gweinyddiaeth ar draws y DU gydweithio i gynllunio sut i leddfu effeithiau mwyaf difrifol methiant yn y trafodaethau rhwng y Deyrnas Unedig a 27 gwlad yr Undeb Ewropeaidd. Ac mae'n rhaid i hynny gychwyn gyda Llywodraeth y DU yn cydweithio â ni fe partner mewn llywodraeth, gan drafod yn agored a rhannu gwybodaeth mewn modd adeiladol. Am gyfnod rhy hir, ac yn rhy aml, maent wedi trafod rhy ychydig ac yn rhy hwyr â ni. Yn ddiweddar, rydym wedi gweld arwyddion calonogol o fwy o drafod mewn ymateb i bwysau oddi wrthym, ond fe ddylid gwneud llawer iawn mwy.

Nawr hoffwn droi at argymhellion penodol yn adroddiad y Pwyllgor. Mae'r ymatebion hyn yn ategu ymateb y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio ar frys paramedrau tebygol gwahanol sefyllfaoedd Brexit, gan gynnwys "sefyllfa dim bargaen", ac adrodd ar gynnydd o fewn 6 mis.

Fel y dywedwyd yn ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor, mae'n bwysig pwysleisio na fydd yn bosibl lliniaru'n llwyr effaith peidio â chael cytundeb ar Gymru, a chyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw gwneud y trefniadau angenrheidiol mewn nifer o'r prif feysydd.

Fodd bynnag, fel amlinellwyd uchod, fel Llywodraeth gyfrifol rydym wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU i ddatblygu rhaglen waith i baratoi ar gyfer sefyllfa bosib o fod heb gytundeb. O ganlyniad i'r pwysau hwn, mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu fforwm rhwng y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, a fydd yn cwrdd bob yn ail wythnos i sicrhau bod gan yr holl weinyddiaethau ddealltwriaeth am y gofynion a'r paratodau.

O fewn Llywodraeth Cymru, sefydlwyd is-grŵp o Grŵp Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Mae'n cwrdd bob yn ail wythnos i sicrhau trefn gyson ar draws Llywodraeth Cymru o ran parodrwydd gweithredol, er mwyn sicrhau ein bod yn barod ar gyfer goblygiadau ymarferol ymadael â'r UE. Mae Grŵp Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, gyda chyingor arbenigol gan y Grŵp Cyngori ar Ewrop, yn gweithio'n helaeth ar y materion niferus sy'n codi yn sgil Brexit, ac mae'r gwaith hwn yn ategu dull gweithredu seiliedig ar dystiolaeth Llywodraeth Cymru wrth i ni geisio dylanwadu a pharatoi ar gyfer ymadael â'r UE.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth y DU y casgliad cyntaf mewn cyfres o Hysbysiadau Technegol. Mae'r hysbysiadau hyn yn amlinellu goblygiadau ymadael heb gytundeb ar gyfer busnesau, dinasyyddion a defnyddwyr, ac yn edrych ar faterion o ffiniau a thollau i gyflawni rhaglenni cymorth dyngarol. Disgwylir nifer o hysbysiadau eraill dros y misoedd nesaf. Drwy gydol y broses, gwelwyd arwyddion cadarnhaol bod Llywodraeth y DU yn gwella'i hymdrechion i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig, ond mae ymhell o fod yn berffaith. Roedd yn rhaid i ni ymateb ar faterion technegol manwl mewn cyfnodau llawer rhy fyr, sydd yn anochel yn effeithio ar effeithiolrwydd paratodau ar draws y DU.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r naw dadansoddiad sectoraidd a ddisgrifiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith a chanlyniad yr ymchwil sydd i ddod gan Ysgol Fusnes Caerdydd.

Fel amlinellwyd yn yr ymateb swyddogol i adroddiad y Pwyllgor, o ganlyniad i'n gwaith cychwynnol comisiynwyd ymchwil ehangach, sydd wedi goddiweddyd y dadansoddiadau cynnar. Er enghraifft, yr adroddiad "Cyfnod Pontio'r UE a Rhagolygon Economaidd ar gyfer Cwmnïau Mawr a Chanolig yng Nghymru", a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a baratowyd gan Ysgol Fusnes Caerdydd, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://gov.wales/topics/businessandconomy/economic-action-plan/eu-transition-and-economic-prospects-for-large-and-medium-sized-firms-in-wales/?skip=1&lang=cy>

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiadau sectoraidd ac mae gwaith polisi pellach yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i adeiladu ar yr ymchwil gychwynnol, gan edrych yn fanylach ar gyfleoedd a bygythiadau o ran masnachu i Gymru.

Yn ogystal ag ymchwil a gomisiynwyd a rhaglen barhaus o ddigwyddiadau busnes uniongyrchol, rydym yn bwriadu defnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn cael ei darparu i ni gan fusnesau i ddysgu mwy am baratodau ac ymatebion posib i Brexit.

Rydym hefyd yn ceisio dadansoddi gwybodaeth ymhellach am fasnachu rhwng Cymru, y DU a'r byd ymhellach. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata am allforion Cymru i, na mewnfurion Cymru o, wledydd eraill y DU ac i ba raddau y mae allbynnau busnes Cymru i rannau eraill o'r DU yn arwain yn y pen draw at allforion o'r DU, nac am y ffordd y mae cadwyni cyflenwi busnesau Cymru'n dibynnu – yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol - ar fewnfurion o'r tu allan i'r DU. Rydym yn ystyried ariannu gwaith, gan ddefnyddio Cronfa Bontio'r UE, i ddatblygu data masnach manylach i Gymru. Bydd manylion pellach am y gwaith hwn, os bydd yn mynd yn ei flaen, ar gael maes o law.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwella cyfathrebu â sefydliadau unigol trwy annog mwy o gyrrff cynrychioliadol i raeadru gwybodaeth i'r sefydliadau hynny. Rydym hefyd yn argymell bod sefydliadau unigol yn ymgymryd ag ymgysylltu dwy ffordd ynghylch Brexit o fewn eu strwythurau eu hunain.

Gydag ychydig iawn o gynnydd yn y negodiadau ac yn absenoldeb eglurder a manylder gan Lywodraeth y DU ar y math o Brexit y mae am ei weld, rydym fodd bynnag wedi bod yn trafod mwy gyda'n rhanddeiliaid mewn amrywio ffyrdd.

Rydym yn defnyddio amrywiol strwythurau i drafod â sefydliadau ar draws Cymru, yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, er mwyn i ni gael trafodaethau am effeithiau posib Brexit, casglu gwybodaeth am eu profiadau a chydweithio i baratoi ar gyfer goblygiadau ymarferol ymadael â'r UE. Mae'r trafodaethau helaeth wedi parhau drwy ein fforymau cyson sy'n cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliaid. Ymysg y fforymau hynny mae Grŵp Bord Gron Rhanddeiliaid yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gweithgor Brexit ar Addysg Uwch, y Gweithgor Ymadael â'r UE (is-grŵp o'r Cyngor Datblygu Economaidd) a'r Grŵp Cyngori ar Ewrop, lle'r ydym wedi ehangu'r aelodaeth yn ddiweddar.

Mae trafodaethau uniongyrchol rhwng adrannau a'r rhanddeiliaid yn ategu'r cyfarfodydd penodol hynny, gan ganiatáu trafod materion yn ymwneud â Brexit; er enghraifft mewn perthynas ag iechyd mewn cyfarfodydd bob yn ail fis gyda'r Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas Feddygol Prydain ac Undebau Llafur.

Mae Ysgrifenyddion y Cabinet a'r Gweinidogion hefyd wedi bod yn trafod mwy gyda rhanddeiliaid ers mis Ionawr, gydag amrywiol weithgareddau yn cael eu cynnal ar draws Cymru. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynhaliodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth drafodaethau masnach Brexit gyda busnesau'r gogledd, cadeiriodd y Gweithgor Ymadael â'r UE a siaradodd yng Nghynhadledd Allforion Cymru 2018 ar ymagwedd ragweithiol Llywodraeth Cymru i helpu cwmnïau i baratoi ar gyfer bywyd ar ôl Brexit.
- Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig wedi parhau i gadeirio Grŵp Bord Gron ar Brexit ac wedi cynnal digwyddiad i rhanddeiliaid gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.
- Bu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn annerch dwy gynhadledd CLILC ac yn siarad yng nghynhadledd ymchwil a datblygu'r GIG yng Nghasnewydd ac mewn digwyddiad Plant yng Nghymru yn yr Eisteddfod.
- Bu Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn cyfarfod cynrychiolwyr addysg bellach yng Nghynhadledd Colegau Cymru.

Gyda mwy o ddyfalu y byddwn yn gweld Brexit heb gytundeb, mae Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd a swyddogion adrannol hefyd wedi bod yn trafod yn uniongyrchol gydag amrywiol rhanddeiliaid – gan gynnwys Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Confederasiwn GIG Cymru a Chymdeithas y Tîrfeddianwyr - i drafod materion yn ymwneud â Brexit a sut y gallwn gydweithio i hysbysu'r aelodau am oblygiadau amrywiol ffurfiau Brexit. Bydd y trafodaethau hyn yn parhau hyd at fis Mawrth 2019 a thu hwnt. Rydym hefyd wedi ysgrifennu at Gadeiryddion Fforymau Lleol Cymru Gydnerth gan ofyn iddynt ystyried camau gweithredu wrth gefn.

Argymhellad 4: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad clir a hygyrch i fusnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar yr hyn y gallai goblygiadau gwahanol sefyllfaedd Brexit, gan gynnwys sefyllfa "dim bargaen", ei olygu i'r sefydliadau hynny. Dylai'r arweiniad hwn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Nid ydym damaid agosach at wybod pa ffurf fydd i Brexit, sy'n golygu bod y dryswch a'r ansicrwydd yn parhau. Rydym wedi cynhyrchu argymhellion polisi manwl, seiliedig ar dystiolaeth, yn egluro sut y gall y math cywir o Brexit ddiogelu swyddi, ac rydym wedi cyflwyno argymhellion ar fasnach, mewnfudo, dyfodol y DU ac amrywiol faterion eraill pan fyddwn y tu allan i'r UE.

Mae'r Hysbysiadau Technegol, y soniwyd amdanynt uchod, yn gwneud rhywfaint i amlinellu goblygiadau ymadael heb gytundeb ar fusnesau, dinasyddion a defnyddwyr. Lle bo angen, mae Llywodraeth Cymru yn ategu'r wybodaeth hon â gohebiaeth uniongyrchol i'r sectorau sy'n cael eu heffeithio. Er enghraifft, ysgrifennodd Dirprwy Brif Weithredwr y GIG at fyrdau iechyd ar ôl rhyddhau'r casgliad cyntaf o hysbysiadau. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd

Cymru (WEFO) yn ysgrifennu at ei holl randdeiliaid ar ôl cyhoeddi'r hysbysiadau ar y Cronfeydd Strwythurol a rhaglenni eraill sy'n cael eu hariannu gan yr UE.

Mewn meysydd polisi cafwyd trafodaethau manwl gyda'r rhanddeiliaid. Er enghraifft, ym mhorthfolio Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i edrych ar fygythiadau a chyfleoedd posib Brexit, gan gynnwys cyhoeddi adroddiad ym mis Chwefror 2018 ar effaith ymadael â'r UE ar y sectorau bwyd, pysgodfeydd, ffermio coedwigaeth a'r amgylchedd. Mae'r adroddiad hwn, a ddatblygwyd gyda'r rhanddeiliaid, yn amlinellu goblygiadau pump o sefyllfaoedd posib gan gynnwys troi at delerau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a'r UE, a mynediad llawn at y farchnad sengl a chytundebau masnach rydd newydd gyda thrydydd gwledydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi i lansio Porth Brexit newydd yn yr hydref. Bydd yn cynnwys offeryn diagnostig i helpu busnesau i asesu pa mor barod y maen nhw ar gyfer Brexit. Rydym yn bwriadu defnyddio'r data sy'n cael eu cynhyrchu gan fusnesau sy'n defnyddio'r offeryn hwn i gryfhau ein dealltwriaeth o barodrwydd busnesau a lle gall ymyrraeth a chymorth Llywodraeth Cymru fod fwyaf gwerthfawr.

Bydd ein cefnogaeth i randdeiliaid yn parhau, byddwn yn cydweithio'n agos gyda nhw wrth i ni ystyried yn ofalus beth fydd goblygiadau datblygiadau yn y negodiadau, a'u heffaith ar Gymru.

Argymhelliad 5: Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio eglurder gan Lywodraeth y DU ar sut y byddai'r Gronfa Rhannu Ffyniant arfaethedig yn cael ei dyrannu a'i gweinyddu.

Fel nodwyd yn ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor, mae datblygu economaidd yn faes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, ac mae'r posibilrwydd o gronfa wedi'i gweinyddu'n ganolog ar gyfer y DU yn anghydnaws â'r gwahanol ffyrdd o ddatblygu rhanbarthol yng ngwahanol wledydd y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i egluro sut y bydd Cronfa Ffyniant Gyffredin arfaethedig y DU yn gweithio, gan sicrhau bod cymhwysedd datblygu economaidd Cymru yn cael ei barchu ac nad yw Cymru'n colli ceiniog o ganlyniad i Brexit.

Hyd yma, nid oes unrhyw fanylion penodol am y cynigion ar gael, ond gobeithio y bydd cyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddechrau mis Medi yn cychwyn deialog ystyrlon.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru - ar y cyd â'r Gweithgor Addysg Uwch - gyhoeddi unrhyw waith a gynhaliwyd hyd yn hyn wrth adolygu ei strategaeth mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi yn y sector addysg uwch i ystyried goblygiadau Brexit yn y maes hwn.

Cyhoeddwyd Adolygiad Reid gan Lywodraeth Cymru ar 6 Mehefin. Gwnaeth Reid dri argymhelliad: y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu gwelededd a dylanwad ymchwil Cymru drwy greu Swyddfa Ymchwil ac Arloesi newydd yn Llundain; y dylai Llywodraeth Cymru

gryfhau sylfaen ymchwil Cymru a galluogi ymchwilwyr Cymru i ddenu cyfran fwy o gyllid ar draws y DU drwy weithredu argymhellion Diamond ar gyfer cyllid ymchwil yn ymwneud ag ansawdd a chreu Cronfa Dyfodol Cymru yn benodol i annog ymchwilwyr Cymru i ennill cyllid o'r tu allan i Gymru; ac y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu gwelededd, cysondeb ac effaith ymchwil ac arloesi yng Nghymru drwy greu un brand unigol ar gyfer ei gweithgareddau arloesi. Mae'r argymhelliad cyntaf yn mynd rhagddo. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried ei hymateb i ail a thrydydd argymhelliad Reid.

Argymhelliad 7: Rydym yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad sut mae'n bwriadu gwario'r dyraniadau canlyniadol a ragwelir fydd yn codi o wario arian ar lefel y DU i baratoi ar gyfer Brexit ac yn egluro a fydd y rhain yn cael eu neilltuo ar gyfer cefnogi gweithgareddau mewn perthynas â Brexit yng Nghymru.

Drwy ein Cronfa Bontio Ewropeaidd gwerth £50m rydym hefyd yn darparu cymorth ariannol yn uniongyrchol i helpu rhanddeiliaid i baratoi ar gyfer Brexit. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i'n sectorau amaethyddiaeth a physgodfeydd gan gynnwys £2.15 miliwn ar gyfer datblygu'r sector cig coch yng Nghymru, £150,000 i helpu i ddarparu pecyn cymorth Brexit i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, £3.5m ar gyfer rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan brifysgolion Cymru i ysgogi partneriaethau rhyngwladol a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i astudio ar ôl Brexit, a £200,000 i helpu'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru gydag ymchwil i'r ffordd y gallai proses Brexit effeithio ar y gweithlu a helpu'r sector i gynllunio ar gyfer unrhyw ganlyniadau posib.

Ers i'r DU bleidleisio dros ymadael â'r UE ar 23 Mehefin 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau Brexit llyfn a llwyddiannus i Gymru. Ymysg ein camau i reoli'r gwaith hanfodol hwn, roedd creu Tîm y Trefniadau Pontio Ewropeaidd i roi arweiniad strategol a chydlynu safbwynt Llywodraeth Cymru ar Brexit, gan ganolbwyntio ar bolisi, negodiadau paratoi a deddfwriaeth. Mae'r Tîm wedi gweithio'n agos gyda thimau polisi ac eraill ar draws y sefydliad i gefnogi Gweinidogion wrth ddiogelu a hyrwyddo buddiannau Cymru.

Mae Brexit yn creu symiau sylweddol o waith newydd mewn meysydd fel cywiro a diwygio deddfwriaeth yn ogystal â mynnu gallu newydd mewn meysydd fel polisi gwledig a masnach a fydd yn ein galluogi i weithredu'n llwyddiannus yn y byd ar ôl Brexit. Hyd yma, rydym wedi rheoli'r gwaith heriol hwn yn bennaf drwy ail flaenoriaethu adnoddau yn fewnol, gan symud staff profiadol i rolau penodol Brexit. Recriwtiwyd staff ychwanegol yn allanol i weithio mewn swyddi Brexit yn ymwneud â'r amgylchedd a materion gwledig, a bydd cam pellach o recriwtio allanol ac aildrefnu mewnol yn dechrau dros yr wythnosau nesaf.

Yn gywir



CARWYN JONES



Department
for Exiting the
European Union

Robin Walker MP
Parliamentary Under Secretary of State for
Exiting the European Union
9 Downing Street
SW1A 2AG

+44 (0)20 7004 1235

psrobinwalker@dexeu.gov.uk
www.gov.uk

Item 3.12

David Rees AM
Chair
External Affairs and Additional Legislation Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

 September 2018

Dear David

FUTURE RELATIONSHIP WITH THE EUROPEAN UNION

Thank you for your invitation of 2 July to the former Secretary of State for Exiting the European Union to discuss the future relationship between the UK and the EU with the External Affairs and Additional Legislation Committee. The new Secretary of State has asked me to respond on his behalf. I apologise for the delay in responding.

As you know from my previous appearances in front of the EAAL Committee, I am keen to engage with the Welsh Government and the National Assembly as we continue preparations for exiting the EU. Ahead of the October European Council, we are planning two further meetings of the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) to discuss a range of exit issues with the Welsh and Scottish Governments. I will also co-chair the next meeting of the Ministerial Forum on EU Negotiations on 17 September, which will focus on Agri-food Trade, Food Safety and Technical Standards, as well as Fisheries. At official level, regular engagement with the devolved administrations continues apace across a wide range of policy areas.

Provided a suitable date can be found, I would be delighted to attend another of your meetings at the National Assembly before your Autumn Half Term recess to discuss the UK-EU future relationship. My officials will be in touch to make the necessary arrangements.

I am copying this letter to the Secretary of State for Exiting the European Union, the Chancellor of the Duchy of Lancaster and the Secretary of State for Wales.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Robin Walker', with a large, stylized initial 'R'.

**ROBIN WALKER MP
PARLIAMENTARY UNDER SECRETARY OF STATE FOR
EXITING THE EUROPEAN UNION**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon